

Y
Fframwaith
Effeithiolrwydd
Aseu

Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Asesu wedi cael ei ddatblygu gan grŵp o arweinyddion ysgolion cynradd o bob rhan o Gymru, a gafodd eu dethol oherwydd bod eu hysgolion yn dangos defnydd effeithiol iawn o asesu mewn amrywiol ffyrdd. Bydd y Fframwaith yn helpu'r holl ysgolion yn Rhwydwaith Incerts i werthuso pa mor effeithiol y maent yn defnyddio asesu, ac yn adnabod ffyrdd o ehangu a gwella ar hynny.

Cwmpas

Yn fras, mae'r Cerrig Milltir olynol yn y Fframwaith yn adlewyrchu'r graddau mae arweinyddion yr ysgol wedi rhoi trefniadau, systemau a chefnogaeth ar waith i alluogi ac annog arferion gwaith effeithiol drwy'r holl ysgol. Mae cwmpas yr arferion hynny'n disgyn o fewn Agwedd 2.2.2, "asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu", yng nghanllawiau Estyn ar gyfer arolygu ysgolion cynradd. I'r mwyafrif o ysgolion yn Rhwydwaith Incerts, bydd cynnydd drwy'r Cerrig Milltir yn gyrru ac yn dilyn defnydd effeithiol iawn o system Incerts.

Strwythur

Mae'r Fframwaith yn cynnwys naw Maes cyfochrog o Effeithiolrwydd, gyda phedair Carreg Filltir o fewn pob un. Mae'r tri Maes cyntaf o Effeithiolrwydd yn disgrifio beth fydd asesu o ansawdd sy'n cynyddu'n barhaus:

- "Gwneud Asesiadau Manwl",
- "Gwneud Asesiadau Cywir", a
- "Gwneud Asesiadau Dibynadwy."

Mae'r Cerrig Milltir yn y chwe Maes arall yn disgrifio beth fydd defnydd cynyddol effeithiol o'r asesiadau hynny:

- "Addysgu Gwahaniaethol",
- "Cynnwys ac Annog Disgyblion",
- "Cynnwys ac Annog Rhieni",
- "Olrhain Cynnydd Disgyblion",
- "Olrhain Grwpiau Bregus", a
- "Cefnogi Strategaeth yr Ysgol."

Terminoleg

Lle bo'r Fframwaith yn defnyddio term sy'n cyfeirio'n arferol at Gyfnod Allweddol 2/3, dylid deall y gallai gyfeirio hefyd at yr hyn sy'n cyfateb iddo yn y Cyfnod Sylfaen. Caiff y Fframwaith ei ysgrifennu fel hyn er mwyn ei wneud yn haws ei ddarllen. Y termau hyn yw:

- "Pwnc", a allai hefyd olygu "Maes Dysgu";
- "Lefel", a allai hefyd olygu "Canlyniad";
- "Is-Lefel", a allai hefyd olygu "Is-Ganlyniad";
- "Pwnc Craidd" a allai hefyd olygu "Prif Faes Dysgu"; a
- "Cyfnod Allweddol", a allai hefyd olygu "Cyfnod".

Yn yr un modd, gallai'r term "disgybl" gyfeirio at blentyn yn unrhyw un o'r Cyfnodau Allweddol, gallai "athro" gyfeirio at athrawes neu unrhyw un sy'n dysgu dysgu ac asesu disgyblion, a gallai "rhieni" olygu gwarcheidwaid, gofalwyr, etc.

Defnyddio'r Fframwaith

I ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer hunan-werthuso, dylai arweinydd ysgol ystyried, am bob Carreg Filtir o fewn pob Maes, y graddau y mae eu hysgol yn dilyn yn effeithiol ac yn gyson yr arfer a ddisgrifir yno. Dylent benderfynu a yw'r arfer honno:

- "yn cychwyn bod yn effeithiol a chyson" (mewn rhai rhannau o'r ysgol),
- "yn effeithiol a chyson ar y cyfan" (yn y rhan fwyaf o'r ysgol), neu
- "yn gwbl effeithiol a chyson" (drwy bob rhan o'r ysgol).

Cofnodi Hunan-werthuso

Mae'r Fframwaith ar gael fel dogfen wedi ei hargraffu, ond anogir arweinwyr ysgolion yn Fframwaith Incerts i edrych arno yn ein System Hunan-Werthuso ar-lein, a chofnodi a rhannu manylion ac enghreifftiau o ddefnydd eu hysgol o asesu yno.

Noder: Er ei bod y pedair Carreg Filtir ym mhob Maes yn dangos cynnydd, gyda phob un yn adeiladu ar ofynion yr un flaenrol ac yn mynd ymhellach na hwy, mae'n bosibl i ysgol "gychwyn bod yn effeithiol a chyson" neu fod "yn effeithiol a chyson ar y cyfan" mewn Carreg Filtir cyn eu bod "yn gwbl effeithiol a chyson" yn yr un flaenrol yn y Maes hwnnw. Mae'r System ar-lein yn caniatáu i hunan-werthusiadau sy'n cynnwys "bylchau" o'r fath mewn cynnydd gael eu cofnodi.



Gwneud Asesiadau Manwl

Cwmpas a lefel manylder asesiadau athrawon a pha mor reolaidd ydynt

Gwneud Asesiadau Cywir

Hyder athrawon wrth ddefnyddio data asesu arall i arwain a chadarnhau eu dyfarniadau eu hunain

Gwneud Asesiadau Dibynadwy

Pa mor eang a soffistigedig yw gweithdrefnau sy'n gwneud data asesu athrawon yn fwy dibynadwy

Carreg Filltir

1

Mae athrawon yn asesu pawb o'u disgyblion unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn y mwyafrif o'r pynciau craidd. Bob tro, ac ar gyfer pob pwnc, maent yn cofnodi sgôr gyffredinol, is-lefel fel arfer.

Er mwyn penderfynu ar lefel neu is-lefel gyffredinol disgybl mewn pwnc, mae athrawon yn casglu data "gwrthrychol", megis lefelau y maent wedi eu rhoi am ddarnau unigol o waith, a'r canlyniadau a gynhyrchwyd gan brofion anffurfiol a ffurfiol. Mae eu dyfarniadau'n seiliedig ar y rhain yn bennaf – yn fwy nag ar yr hyn a sylwant yn eu disgybl dros gyfnod o amser.

Wrth ddefnyddio asesiadau a wnaethant yn gynharach, mae athrawon yn adolygu pob un ohonynt o leiaf un waith eto. Mae gweithdrefnau sy'n caniatáu i athrawon newid eu hasesiadau os bydd angen.

Carreg Filltir

2

Mae athrawon yn asesu pawb o'u disgyblion sawl gwaith y flwyddyn ym mhob un o'r pynciau craidd. Maent yn cofnodi dyfarniadau manwl yn erbyn holl ofynion unigol y lefelau ar gyfer y pwnc hwnnw, yn ogystal â sgôr gyffredinol neu is-lefel ar ei gyfer.

Wrth wneud dyfarniadau manwl o gyrhaeddiad disgybl o gymharu â gofynion unigol lefelau pwnc, mae athrawon yn cael eu harwain i raddau helaeth gan yr hyn a sylwant yn y disgybl hwnnw dros gyfnod o amser, er bod hyn yn amodol ar sicrhau bod y lefel neu is-lefel gyffredinol y penderfynant arni yn cytuno â data "gwrthrychol" megis darnau o waith wedi'u safoni neu ganlyniadau profion ffurfiol.

O bryd i'w gilydd, ac ar gychwyn y flwyddyn ysgol yn enwedig, mae athrawon yn adolygu asesiadau a wnaed gan gydweithiwr. Mae gweithdrefnau i hwyluso trafodaeth rhwng athrawon ynghylch asesiadau, ac i newid yr asesiadau hynny lle bo angen.

Carreg Filltir

3

Mae athrawon yn asesu pawb o'u disgyblion yn yr holl bynciau, gan asesu'n rheolaidd yn y pynciau craidd. Ar gyfer pob pwnc, maent yn cofnodi dyfarniadau manwl yn ogystal â sgôr gyffredinol/ is-lefel. Maent yn ysgrifennu sylwadau achlysurol neu'n adnabod enghreifftiau o waith eu disgyblion i gadarnhau rhai o'r dyfarniadau hynny ac ehangu arnynt.

Wrth wneud dyfarniadau manwl o gyrhaeddiad disgybl yn erbyn gofyn gofynion unigol o fewn pwnc, caiff athrawon eu harwain gan eu sylwadau a chan sgiliau penodol y mae'r disgybl yn eu harddangos mewn gwaith y maent wedi'i gynhyrchu ac mewn atebion y maent wedi eu rhoi mewn profion. Mae athrawon yn achlysurol yn cofnodi enghreifftiau o'r atebion hynny ochr yn ochr â'r dyfarniadau y maent yn eu cadarnhau.

Caiff enghreifftiau o waith disgyblion eu dethol, eu hanodi a'u casglu gyda'i gilydd i ddangos enghreifftiau o rai o ofynion unigol y lefelau. Caiff yr enghreifftiau hyn eu defnyddio gan athrawon i'w cynorthwyo wrth wneud a thrafod eu dyfarniadau.

Carreg Filltir

4

Mae athrawon yn asesu pawb o'u disgyblion yn rheolaidd yn yr holl bynciau. Ar gyfer pob pwnc, maent yn cofnodi dyfarniadau manwl yn ogystal â sgôr gyffredinol/is-lefel. Maent yn cofnodi'n systematig sylwadau ac enghreifftiau o waith eu disgyblion sy'n adeiladu naratif neu broffil o'u dysgu, yn y pynciau craidd o leiaf.

Wrth wneud dyfarniadau manwl o gyrhaeddiad disgybl mewn pwnc, caiff athrawon eu harwain gan yr holl wybodaeth sydd ar gael. Maent yn cofnodi'n systematig sut mae gwybodaeth benodol o atebion a roddir mewn profion, ac o ffynonellau eraill, wedi cadarnhau eu dyfarniadau. Maent yn cymharu is-lefelau wedi eu cyfartalu ar draws y cohort gyda chanlyniadau profion wedi eu cyfartalu ar draws y cohort er mwyn adnabod unrhyw wahaniaeth systematig rhyngddynt.

Caiff enghreifftiau o waith gan ddisgyblion o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi eu dethol, eu hanodi a'u casglu gyda'i gilydd yn systematig i ddangos enghreifftiau o ofynion unigol y lefelau yn y pynciau craidd. Caiff y "proffiliau" hyn o'r pynciau eu defnyddio gan athrawon i'w cynorthwyo wrth wneud dyfarniadau sy'n gyson â'r rheini a wneir mewn ysgolion eraill, o fewn eu clwstwr ac o'r tu allan iddo.

Y Defnydd o Aseu

Addysgu Gwahaniaethol

Cywirdeb yr wybodaeth ynghylch cyrhaeddiad disgyblion a ddefnyddir ar gyfer gwahaniaethu wrth addysgu

Cynnwys ac Annog Disgyblion

Lefel manylder yr wybodaeth aseu a rennir gyda disgyblion, a'r graddau y maent yn ymwneud â'r broses aseu

Cynnwys ac Annog Rhieni

Lefel manylder yr wybodaeth aseu y gall y rhiant ei chael yn hawdd ac ymateb iddi

Carreg Filltir

1

Wrth gynllunio ar gyfer eu gwersi, mae athrawon yn gwahaniaethu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion yn eu dosbarth yn ôl eu lefel cyffredinol o gyraeddiad blaenorol mewn pwnc.

Yn achlysurol, mae athrawon yn dangos i ddisgyblion eu cyrhaeddiad cyffredinol mewn pwnc, gan ei gyfleu mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt hwy. Yn yr un modd, mae ganddynt ffordd ddiddorol o ddangos i ddisgyblion pa mor bell y maent wedi symud ymlaen a pha mor agos ydynt at eu targed unigol.

Mae adroddiadau blynyddol yn cynnwys cyrhaeddiad cyffredinol y disgybl mewn meysydd pwnc craidd wedi ei gyflwyno mewn ffordd sy'n ystyrlon i rieni. Mae'r adroddiadau'n dweud wrth rieni sut i ymateb gyda'u sylwadau a gallai'r sylwadau hyn ymwneud â chyrhaeddiad eu plentyn.

Carreg Filltir

2

Mae athrawon yn grwpio disgyblion yn eu dosbarth yn ôl eu hasesiadau eu hunain o lefel bresennol cyrhaeddiad pob disgybl mewn pwnc, ac yn gwahaniaethu ar gyfer y grwpiau hynny wrth gynllunio ar eu cyfer.

Sawl gwaith y flwyddyn, mae athrawon yn dangos i ddisgyblion rai o ofynion penodol Lefelau maes pwnc y maent eisoes wedi eu cyrraedd, gan ddefnyddio iaith y maent yn ei deall. Yn yr un modd, maent yn dangos i ddisgyblion rhai "camau nesaf" penodol y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i wneud cynnydd pellach, gan efallai ofyn iddynt ddewis rhai penodol sydd o ddiddordeb iddynt i ni ganolbwyntio arnynt.

Gwneir adroddiadau ysbeidiol i rieni, adroddiadau sydd, yn ogystal â chyflwyno cyrhaeddiad cyffredinol mewn meysydd pwnc craidd mewn ffordd ystyrlon, yn cynnwys manylion o sgiliau unigol a'r graddau y mae'r disgybl wedi eu datblygu. Yn yr un modd, mae'r adroddiadau'n nodi rhai "camau nesaf" penodol y mae'n rhaid i'r disgybl eu cymryd i wneud cynnydd pellach. Mae'r adroddiadau'n annog rhieni i ymateb gyda'u sylwadau, a allai ymwneud â'r "camau nesaf" hynny.

Carreg Filltir

3

Mae athrawon yn grwpio disgyblion yn eu dosbarth sydd, yn ôl eu hasesiadau manwl eu hunain, naill ai angen mwy o gymorth neu y gellir eu hymestyn ymhellach mewn gofynion unigol penodol lefelau pwnc. Maent yn gwahaniaethu ar gyfer y grwpiau hynny wrth gynllunio ar gyfer y gofynion hynny.

Mae athrawon yn dangos yn rheolaidd i'w disgyblion sut y mae enghraifft benodol o'r hyn y maent wedi'i wneud mewn dosbarth yn gysylltiedig ag un o ofynion penodol maes pwnc, ac sydd felly wedi cael ei gofnodi gan yr athro. Er mwyn bod yn ddiddorol, dylai'r enghreifftiau hyn cael eu cofnodi fel ffotograffau neu ffeiliau fideo y gall y disgyblion eu gweld gyda chymorth.

Ochr yn ochr ag adroddiadau ysbeidiol sy'n dangos yn glir lefelau cyffredinol cyrhaeddiad, manylion o'r sgiliau unigol y mae'r disgybl wedi eu dysgu a "chamau nesaf" penodol ar gyfer cynnydd pellach, mae rhieni'n gallu mynd ar-lein i weld rhai enghreifftiau o waith y disgybl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r sgiliau a ddysgwyd. Caiff rhieni eu hannog i edrych ar yr enghreifftiau hynny a rhoi eu sylwadau.

Carreg Filltir

4

Ar ôl adnabod grwpiau o ddisgyblion i wahaniaethu ar eu cyfer wrth gynllunio ar gyfer gofynion unigol penodol pwnc, mae athrawon yn ail-aseu eu disgyblion yn ysbeidiol ac yn eu symud rhwng y grwpiau hynny wrth iddynt symud ymlaen.

Mae disgyblion sy'n ddigon hen yn gwybod am rai o'r "camau nesaf" y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i wneud cynnydd tuag at ofynion penodol maes pwnc. Maent yn awgrymu enghreifftiau o'r pethau y maent wedi eu gwneud yn y dosbarth y dylai'r athro eu cofnodi, gan fynegi eu rhesymau o ran y gofynion hynny. Caiff rhai disgyblion eu cynnwys ymhellach trwy gael cofnodi eu gwaith eu hunain, gan ei anodi'n briodol gyda chymorth.

Ochr yn ochr ag adroddiadau ysbeidiol sy'n dangos yn glir lefelau cyrhaeddiad, manylion y sgiliau unigol y mae'r disgybl wedi eu dysgu a "chamau nesaf" penodol ar gyfer cynnydd pellach, mae rhieni'n gallu mynd ar-lein i weld proffil cynhwysfawr o sylwadau ac enghreifftiau o waith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â sgiliau a ddysgwyd. Caiff rheini eu hannog i edrych ar y proffil hwn, ac i wneud sylwadau a chyfraniadau ato ar-lein.

Olrhain Cynnydd Disgyblion

Pa mor amrywiol a soffistigedig yw'r defnydd a wneir o ddata asesu'r disgyblion

Olrhain Grwpiau Bregus

Pa mor amrywiol a soffistigedig yw'r defnydd a wneir o ddata asesu'r disgyblion

Cefnogi Strategaeth yr Ysgol

Y graddau y mae'r wybodaeth asesu'n cefnogi athrawon, arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol ac yn cael ei defnyddio ganddynt

Carreg Filltir

1

Yn y mwyafrif o'r pynciau craidd, caiff cynnydd pob disgybl ei gyfrifo, o'u sgoriau neu is-lefelau ar gychwyn ac ar ddiwedd pob blwyddyn neu gyfnod allweddol, a'i gymharu â disgwyliadau cenedlaethol.

Ar gyfer un neu ddau o'r grwpiau hynny sy'n cael eu hadnabod yn nodweddiadol fel rhai sy'n agored i dan-gyflawni mewn ysgolion, caiff mesur o gyrhaeddiad cyfartalog y disgyblion a mesur o gynnydd cyfartalog y disgyblion dros flwyddyn neu gyfnod allweddol eu cymharu â'u cohort a gyda disgwyliadau cenedlaethol.

Caiff asesiadau athrawon eu cofnodi drwy'r flwyddyn ac fe'u defnyddir fel sail ar gyfer y lefelau diwedd-cyfnod-allweddol y mae'n ofynnol i'r ysgol eu cyflwyno.

Carreg Filltir

2

Ym mhob un o'r pynciau craidd, caiff cynnydd pob disgybl ei gyfrifo o fesur digon manwl o'u cyrhaeddiad ar gychwyn ac ar ddiwedd pob blwyddyn neu dymor. Caiff y mesurau hyn o gyrhaeddiad pob disgybl eu cymharu â thargedau manwl ym mhob pwnc a osodwyd iddo ef neu hi yn unigol.

Ar gyfer amryw o grwpiau yn yr ysgol sydd wedi eu hadnabod fel rhai agored i dan-gyflawni, ac ym mhob un o'r pynciau craidd, caiff sgôr neu is-lefel gyfartalog y disgyblion, cynnydd cyfartalog y disgyblion dros y flwyddyn neu dymor, a chynnydd cyfartalog y disgyblion tuag at eu targed unigol, eu cymharu gyda rhai eu cohort a gyda disgwyliadau cenedlaethol.

Mae Cydgysylltwyr Pwnc neu Gydgyssylltydd Asesu yn defnyddio data asesu athrawon i fonitro sut mae cohortau a grwpiau eraill o ddisgyblion yn symud ymlaen yn y pynciau craidd o flwyddyn i flwyddyn.

Carreg Filltir

3

Mae'r dulliau a ddefnyddir i gyfrifo cynnydd disgyblion a chymharu eu cyrhaeddiad gyda'u targedau unigol yn ddigon trylwyr, a'r defnydd ohonynt yn ddigon rheolaidd, i gefnogi ymyraethau amserol ac wedi eu targedu. Caiff canlyniadau cyfrifiadau a chymariaethau o'r fath yn yr holl bynciau craidd eu defnyddio i ddedol disgyblion penodol ar gyfer cymorth ychwanegol neu waith mwy heriol.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i gymharu perfformiad grwpiau bregus yr ysgol gyda disgwyliadau yn ddigon trylwyr, a'r defnydd ohonynt yn ddigon rheolaidd, i alluogi i gamau amserol ac wedi eu targedu gael eu cymryd pryd bynnag y bo'n anghenrheidiol.

Mae'r Tim Uwch Arweinwyr a'r staff addysgu yn cydweithio i ddadansoddi data asesu athrawon o'r holl gohortau a grwpiau, gan wneud defnydd o ddata cefndirol arall (ee presenoldeb), mathau eraill o asesu (ee profion cenedlaethol) a data targedau unigolion (ee o Ymddiriedolaeth Teulu Fischer)

Carreg Filltir

4

Mae'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cynnydd disgyblion ac i gymharu eu cyrhaeddiad gyda'u targedau unigol yn ddigon trylwyr a rheolaidd i fesur yn ystyrlon effaith pob ymyraeth a dargedir. Mae mesuriadau o'r fath yn cael eu defnyddio i adnabod yr ymyraethau gorau, ac weithiau i symud disgybl penodol o un grp i'r llall yn ystod ymyraeth.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i gymharu perfformiad grwpiau bregus yr ysgol â disgwyliadau yn ddigon trylwyr a rheolaidd i fesur yn ystyrlon effaith pob cam gweithredu a dargedir.

Mae penderfyniadau a chynlluniau strategol y corff llywodraethu ar gyfer gwella'r ysgol a darparu adnoddau'n cael eu harwain lle bo'n briodol gan ddealltwriaeth glir o ddadansoddiad cynhwysfawr o ddata asesu'r ysgol.

